

Gwelyau'r GIG

Mae'r adroddiad hwn yn ymwneud â'r prosesau sy'n arwain at gyhoeddi ystadegau Gwelyau'r GIG, ac mae hefyd yn edrych ar faterion ansawdd, fel: cwmpas, cryfderau a chyfyngiadau'r data, perthnasedd a chymharedd.

Cynnwys

Beth yw'r ystadegau hyn?	2
Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol	4
Defnyddwyr a sut y defnyddir y data	4
Defnyddio data gweinyddol at ddibenion ystadegol.....	5
Cryfderau a chyfyngiadau'r data.....	6
Y cylch prosesu data	6
Casglu data.....	6
Dilysu a gwirio	7
Cyhoeddi.....	7
Diwygiadau	7
Statws ystadegau gwladol.....	8
Datgelu a chyfrinachedd.....	8
Ansawdd	8
Perthnasedd	8
Cywirdeb	9
Amseroldeb a phrydlondeb	9
Hygyrchedd ac eglurder	10
Cymharedd	10
Cydlyniant.....	12
Dolenni defnyddiol	13
Gwerthuso	13

Beth yw'r ystadegau hyn?

Mae'r datganiad ystadegol cyntaf ar Welyau'r GIG yn darparu data ar y defnydd o welyau yn ysbytai'r GIG yng Nghymru. Caiff y data eu cyflwyno ar lefel byrddau iechyd lleol ac ar lefel Cymru ar gyfer y gwelyau sydd ar gael ar gyfartaledd bob dydd, faint o welyau sy'n cael eu defnyddio ar gyfartaledd bob dydd a chyfraddau defnyddio gwelyau. Mae'r data yn cwmpasu'r holl welyau sydd yn ysbytai'r GIG yng Nghymru.

Caiff bob gwely a phresenoldeb bob claf eu dosbarthu yn ôl arbenigedd. Mae gwybodaeth yn ôl arbenigedd i'w gweld ar [StatsCymru](#), ac mae wedi'i chyfuno i gyd-fynd â'r grwpiau arbenigedd sydd wedi'u nodi yng [Ngeiriadur Data GIG Cymru](#). Mae nifer o arbenigeddau heb eu cynnwys yn y cyfansymiau ar gyfer y gwelyau sydd ar gael bob dydd ar gyfartaledd, y gwelyau sy'n cael eu defnyddio bob dydd ar gyfartaledd a'r ganran o ran y defnydd o welyau. Sef:

- Uned Gofal Arbennig Babanod
- Gofal Dibyniaeth Fawr
- Gofal Dwys
- Uned Therapi Dwys Pediatrig
- Uned Mêr Esgyrn

Mae'r data ar gyfer yr uchod wedi'u cynnwys o dan yr arbenigedd priodol ond nid ydynt wedi'u cynnwys yn y cyfansymiau.

I gyfrifo faint o welyau sydd ar gael bob dydd ar gyfartaledd defnyddir y fformiwla ganlynol =

$$\frac{M1 + M2 + M3 + M4 + M5 + M6 + M7 + M8 + M9 + M10 + M11 + M12}{12}$$

Pan M = Data misol. Defnyddir yr un fethodoleg yng nghyswllt y gwelyau sy'n cael eu defnyddio bob dydd ar gyfartaledd yn flynyddol.

Y fformiwla hon sy'n cael ei defnyddio o 2013-14 ymlaen, defnyddiwyd methodoleg wahanol cyn hynny, ewch i'r adran [Cymharedd](#) i gael rhagor o wybodaeth.

Cyn 2012-13, cyhoeddwyd mesurau ychwanegol ochr yn ochr â'r gwelyau oedd ar gael a gwelyau oedd yn cael eu defnyddio. Sef:

- Hyd yr arhosiad ar gyfartaledd - Am ba hyd, ar gyfartaledd, yr oedd pob claf preswyl yn defnyddio gwely (mewn dyddiau). Roedd hyn yn cael ei gyfrifo drwy luosi'r ffigur ar gyfer 'y gwelyau oedd yn cael eu defnyddio bob dydd ar gyfartaledd' â 365 a'i rannu ag 'achosion cleifion preswyl'. Mae angen bod yn ofalus wrth ddefnyddio'r ffigurau hyn os yw'r ffigur cyfatebol ar gyfer 'achosion cleifion preswyl' yn fach, oherwydd gallai arwain at werth uchel oherwydd y cyfrifiad a wnaed.
- Ffactor defnyddio gwely - Nifer y cleifion, ar gyfartaledd, oedd yn defnyddio pob gwely yn ystod y cyfnod dan sylw. Cyfrifir hyn drwy rannu'r 'achosion cleifion preswyl' â 'nifer y gwelyau

oedd ar gael ar gyfartaledd bob dydd'. Mae angen bod yn ofalus wrth ddefnyddio'r ffigurau hyn os yw'r ffigur cyfatebol ar gyfer 'nifer y gwelyau oedd ar gael bob dydd' yn fach, oherwydd gallai arwain at werth uchel oherwydd y cyfrifiad a wnaed.

- Achosion cleifion preswyl (ar sail marwolaethau a rhyddhau o'r ysbyty) - Pob claf preswyl sydd wedi mynd drwy'r drefn dderbyn gyflawn fel achos brys neu'r rheini sydd wedi'u derbyn i'r ysbyty yn ddewisol gyda'r bwriad o aros yn yr ysbyty am o leiaf un noson ac sydd wedyn wedi cael eu rhyddhau o'r ysbyty (neu eu trosglwyddo i ysbyty arall) neu sydd wedi marw yn yr ysbyty. Nid yw babanod sy'n cael eu geni mewn adran mamolaeth, pobl iach sy'n dod gyda chleifion preswyl a staff sâl sy'n cael eu trin yn eu llety eu hunain wedi'u cynnwys.
- Cyfnod trosiant - Y cyfnod o amser, ar gyfartaledd, mewn dyddiau, y mae'r gwely'n wag rhwng bob claf. Cyfrifir hyn drwy luosi'r ffigur ar gyfer 'y gwelyau sy'n wag bob dydd ar gyfartaledd' â 365 a'i rannu ag 'achosion cleifion preswyl'. Ar rai adegau, mae'n bosibl y bydd nifer 'y gwelyau sy'n cael eu defnyddio bob dydd ar gyfartaledd' yn fwy na nifer 'y gwelyau sydd ar gael bob dydd ar gyfartaledd', gan arwain at werth negyddol ar gyfer y 'cyfnod trosiant'. Mae angen bod yn ofalus wrth ddefnyddio'r ffigurau hyn os yw'r ffigur cyfatebol ar gyfer 'achosion cleifion preswyl' yn fach, oherwydd gallai arwain at werth uchel oherwydd y cyfrifiad a wnaed.

Nid yw'r rhain yn cael eu cyfrifo erbyn hyn oherwydd roeddynt yn defnyddio data ar gyfer marwolaethau a rhyddhau o'r ysbyty ac nid yw'r data hyn yn cael eu casglu drwy ffurflen QS1. Mae modd cael y data hyn o'r Gronfa Ddata Cyfnodau Gofal Cleifion yng Nghymru (PEDW) o 2012-13 ymlaen ond roedd problemau wedi codi o ran ansawdd y data yng nghyswllt adrodd ar weithgareddau Unedau Asesu yn QS1 ac yn PEDW a sut y dylid ymdrin â hyn yn y data. Nodwyd bod anghysondeb o ran adrodd ynghylch unedau asesu, gyda rhai Byrddau Iechyd Lleol (BILI) yn adrodd ar weithgareddau'r Uned Asesu yn eu data gwelyau, ac eraill yn eu hepgor. Mae'r anghysondeb hwn o ran adrodd ar weithgareddau Unedau Asesu hefyd yn debygol o effeithio ar ddata hanesyddol.

Caiff bob gwely a chlaf sy'n bresennol eu dosbarthu yn ôl arbenigedd yr ymgynghorydd sy'n gyfrifol am ofal y claf. Mae'r arbenigeddau wedi'u cyfuno yn ôl y grwpiau canlynol ar [StatsCymru](#):

Llawfeddygol aciwt:

Llawdriniaeth gyffredinol
Wroleg
Llawdriniaeth drawmatig
ac orthopedig
Clust, Trwyn a Gwddf
Offthalmoleg
Llawdriniaeth ar y geg
Deintyddiaeth adferol
Deintyddiaeth bediatrig
Orthodonteg
Niwrolawdriniaeth
Llawdriniaeth blastig (heb fod
yn llosgiadau)
Llawdriniaeth blastig
(llosgiadau)
Cardiothorasig - llawdriniaeth
gardiaidd

Ffisioleg Glinigol
Ffarmacoleg glinigol
Meddygaeth Awdiolegol
Geneteg Glinigol
Gwasanaeth Adsefydlu
Meddygaeth Liniarol
Cardioleg Bediatrig
Cardioleg
Dermatoleg
Meddygaeth Thorasig
Clefydau Heintus
Anafiadau Cefn
Niwroleg Arall
Niwroffisioleg Glinigol
Meddygaeth Genhedlol-
Wrinol
Arenneg
Oncoleg Feddygol

Mamolaeth:

Obstetreg
Ymarfer Meddygol mamolaeth
Clinig Cyn Geni
Gwasanaeth Bydwreigiaeth

Salwch meddwl:

Salwch meddwl oedolion
Seiciatreg Plant a'r Glasoed
Seiciatreg fforensig
Seicotherapi
Seiciatreg Henaint

Patholeg:

Patholeg Gyffredinol
Patholeg Gemegol
Haematoleg Anghlinigol
Microbioleg Feddygol

Cardiothorasig - llawdriniaeth
thorasig
Llawdriniaeth gardiaidd
bediatrig
Llawdriniaeth bediatrig
Damweiniau ac achosion
brys
Anestheteg
Rheoli poen

Meddygol aciwt:

Meddygaeth Gyffredinol
Gastroenteroleg
Endocrinoleg
Haematoleg Glinigol

Meddygaeth Niwclear
Rheumatoleg
Pediateg
Niwroleg Bediatrig
Meddygaeth Ddeintyddol

Eraill aciwt:

Gynaecoleg
Ymarfer Meddygol
heblaw Mamolaeth
Oncoleg Glinigol
Radioleg

Meddygaeth Geriatrig
Anabledd dysgu
Meddygaeth Gymunedol
Meddygaeth Alwedigaethol
Gweithgareddau Nyrsio
Gofal Dibyniaeth Fawr
Uned Therapi Dwys Pediatrig
Unedau Gofal Arbennig Babanod
Uned Mêr Esgyrn
Gofal Dwys

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 yn ymwneud â gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'r Ddeddf yn sefydlu saith nod llesiant ar gyfer Cymru, sef: Cymru sy'n fwy cyfartal, llewyrchus, cydnerth, iach, a chyfrifol ar lefel fyd-eang, sydd â chymunedau cydlynus a diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu. O dan adran (10)(1) o'r Ddeddf, rhaid i Weinidogion Cymru (a) cyhoeddi dangosyddion ("dangosyddion cenedlaethol") y mae'n rhaid eu defnyddio er mwyn mesur cynnydd tuag at gyrraedd y nodau Llesiant, a (b) gosod copi o'r dangosyddion cenedlaethol gerbron y Cynulliad Cenedlaethol. Rhoddwyd y 46 dangosydd cenedlaethol gerbron ym mis Mawrth 2016.

Mae gwybodaeth am y dangosyddion, ynghyd â naratif ar gyfer pob un o'r nodau llesiant a gwybodaeth dechnegol gysylltiedig ar gael yn [Adroddiad Llesiant Cymru](#).

Rhagor o wybodaeth am [Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015](#).

Gallai'r ystadegau sydd wedi eu cynnwys yn y datganiad hwn hefyd ddarparu naratif i gefnogi'r dangosyddion cenedlaethol a gall gwasanaethau cyhoeddus eu defnyddio mewn cysylltiad â'u hasesiadau llesiant lleol a'u cynlluniau llesiant lleol.

Defnyddwyr a sut defnyddir y data

Mae dealltwriaeth o'r tueddiadau o ran faint o welyau sydd ar gael ac sy'n cael eu defnyddio yn y GIG yn ddefnyddiol i'r rheini sy'n rhan o'r gwaith o gynllunio a gwneud penderfyniadau ar lefel leol a chenedlaethol.

Dyma brif ddefnyddwyr ystadegau yn ein barn ni:

- Gweinidogion a'u cynghorwyr
- Aelodau'r Cynulliad a Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru
- Swyddogion yn yr Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn Llywodraeth Cymru
- GIG Cymru

- Myfyrwyr, academyddion a phrifysgolion
- Rhannau eraill o Lywodraeth Cymru
- Adrannau eraill y Llywodraeth
- Y cyfryngau
- Dinasyddion unigol.

Defnyddir yr ystadegau mewn ffyrdd amrywiol. Dyma rai enghreifftiau:

- Cyngor i Weinidogion
- Er mwyn asesu, rheoli a monitro Gweithgareddau GIG Cymru
- Fel sail ar gyfer prosiectau gwella gwasanaethau o ran meysydd ffocws a chyfleoedd i wella ansawdd
- Mae Byrddau Iechyd Lleol y GIG yn eu defnyddio i feincnodi eu hunain yn erbyn Byrddau Iechyd Lleol eraill
- Er mwyn helpu i bennu'r gwasanaeth gallai'r cyhoedd ei gael gan GIG Cymru.

Os ydych chi'n eu defnyddio ac yn teimlo nad ydy'r rhestr uchod yn eich cynnwys chi, rhowch wybod i ni drwy anfon e-bost at ystadegau.iechyd@llyw.cymru.

Defnyddio data gweinyddol at ddibenion ystadegol

Mae ffurflenni QS1 yn defnyddio data gweinyddol sy'n cael eu cadw gan systemau ysbytai o fewn byrddau iechyd lleol. Fel y manylir arno yn y paragraffau canlynol, mae'r byrddau iechyd yn cyflwyno data cyfanredol i Wasanaeth Gwybodeg GIG Cymru (NWIS), sydd wedyn yn darparu'r data i Lywodraeth Cymru i'w cyhoeddi. Mae'r data cyfanredol yn cael eu gwirio am ddilysrwydd, fel y disgrifir yn yr adrannau isod.

Rydym wedi defnyddio'r canllawiau a ddarparwyd gan [Becyn Cymorth Ansawdd Data Gweinyddol](#) Awdurdod Ystadegau'r Deyrnas Unedig i gyflawni asesiad cychwynnol o broffil risg y data cyfanredol a ddefnyddir i gynhyrchu datganiad Gwelyau'r GIG.

Yn ein barn ni, risg ganolog sydd i'r data o ran eu hansawdd, ac maent yn ddata proffil isel o ran diddordeb cyhoeddus. Y rhesymau am hyn yw bod safonau a diffiniadau sydd wedi'u diffinio'n dda ar waith ar gyfer y data a gasglwyd, ond caiff y data eu casglu o nifer o safleoedd ysbyty ar draws byrddau iechyd lleol, ac efallai fod rhywfaint o amrywiad o ran sut y casglwyd ac y proseswyd y data mewn gwahanol safleoedd.

Yn ôl pecyn cymorth Awdurdod Ystadegau'r Deyrnas Unedig, mae hynny'n awgrymu dylem edrych am sicrwydd sylfaenol neu ehangach (A1/A2) mewn meysydd fel y broses gasglu, cyfathrebu â chyflenwyr data, dulliau sicrhau ansawdd, a dogfennaeth.

Cryfderau a chyfyngiadau'r data

Cryfderau

- Mae safonau a diffiniadau clir wedi'u diffinio'n dda, ynghyd â chanllawiau atodol, ar waith yng [Ngeiriadur Data GIG Cymru](#), sy'n helpu i sicrhau cysondeb data a gyflwynir gan bob bwrdd iechyd lleol ledled Cymru.
- Mae gan yr allbynnau ffocws clir ar Gymru ac maent wedi cael eu datblygu i ddiwallu angen defnyddwyr mewnol ac allanol yng Nghymru.
- Defnyddiwyd ffynonellau data gweinyddol yn effeithlon er mwyn cynhyrchu allbynnau. Y ffynhonnell data gweinyddol a ddefnyddiwyd yw'r system gweinyddu cleifion sy'n casglu data demograffeg, cofnodion meddygol a gwybodaeth ddiagnostig ar gyfer cleifion yn ysbytai Cymru.
- Cyhoeddir ystadegau manwl ar ein gwefan StatsCymru yn ôl Bwrdd Iechyd Lleol, arbenigedd a safle'r ysbyty
- Mae'r data yn cynnwys yr holl welyau sydd yn ysbytai'r GIG yng Nghymru.
- Mae data wedi cael eu cyhoeddi ers 1989-90, felly gall defnyddwyr weld tuedd tymor hir o ran y defnydd o welyau.

Cyfyngiadau

- Mae'r broses o gasglu data yn defnyddio data gweinyddol sy'n cael eu dal gan systemau ysbytai. Mae hynny'n golygu bod y data wedi cael eu casglu at ddibenion gweinyddol, nid ystadegol. Felly, er y mesurau diogelwch oedd ar waith, efallai fod rhai problemau o ran ansawdd y data. Edrychwch ar yr adran [Cywirdeb](#) i gael rhagor o wybodaeth.
- Mae'r data a ddarperir i Wasanaeth Gwybodeg GIG Cymru yn ddata cyfanredol, sy'n cyfyngu ar y gwaith dilysu gall y Gwasanaeth ei wneud.
- Nid oes gan yr wybodaeth ar StatsCymru lawer o esboniad i alluogi defnyddwyr eraill i ddehongli'r data'n briodol. Fodd bynnag, mae wedi'i bwriadu ar gyfer cynulleidfa fwy cyfarwydd.
- Oherwydd y gweinyddiaethau datganoledig a pholisïau gwahanol, nid yw gwneud cymariaethau uniongyrchol ar lefel y DU mor hawdd (gweler [Cydlyniant](#) yn ddiweddarach yn y ddogfen).

Y cylch prosesu data

Casglu data

Daeth yr wybodaeth sydd wedi'i chyflwyno yn y datganiad hwn o'r ffurflen QueSt 1 (QS1). Mae manylion y cyflwyniad i'w gweld yng [Ngeiriadur Data Cymru](#). Mae'r ffurflen QS1, a gyflwynwyd ym 1996, yn darparu data cyfanredol am y gwelyau sydd ar gael ac sy'n cael eu defnyddio yn ysbytai'r

GIG yng Nghymru. Yn y datganiad hwn rydym yn cymharu ffigurau cyfredol â ffigurau ar gyfer 1996-97, gan mai hon oedd y flwyddyn ariannol gyntaf ers cyflwyno QS1. Mae Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru (NWIS) yn casglu'r data o fyrddau iechyd lleol unigol yng Nghymru ac maent yn cael eu gwirio ar gyfer eu dilysrwydd yn ganolog cyn eu cyhoeddi. Cyfrifoldeb y sefydliadau hyn yw sicrhau bod y ffigurau wedi cael eu casglu yn y modd cywir ac yn unol â chanllawiau a diffiniadau canolog.

Gwnaed newidiadau o ran casglu yn 2012-13, gweler [Cymharedd](#) am ragor o fanylion.

Dilysu a gwirio

Mae Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru yn dilysu'r data wrth iddynt gael eu llwytho i gronfa ddata ei wasanaeth cyfnewid. Mae hyn yn cynnwys gwiriadau, fel a oes codau dilys wedi'u cyflwyno ar gyfer pob maes, newidiadau o fis i fis ar lefel byrddau iechyd lleol a chymariaethau ar lefel gwasanaeth, ac mae'n caniatáu i fyrddau iechyd lleol wneud gwiriadau cychwynnol a chywirow eu data. Mae rhagor o wybodaeth am y gwaith sicrhau ansawdd mae'r Gwasanaeth yn ei wneud ar y data a ddefnyddir i gynhyrchu Ystadegau Gwladol a Swyddogol ar gael ar [dudalennau Sicrhau Ansawdd Data'r Gwasanaeth](#).

Cyn gynted ag y bydd y data yn cyrraedd yr Uned Ystadegau a Dadansoddi Iechyd yn Llywodraeth Cymru, maent yn mynd drwy broses wirio bellach ac mae unrhyw ymholiadau yn cael eu hanfon at Wasanaeth Gwybodeg GIG Cymru a/neu'r Byrddau Iechyd. Mae hyn yn caniatáu i'r byrddau wirio a chywirow eu data neu wneud sylwadau amdanynt, er mwyn darparu gwybodaeth gyd-destunol pan fo newidiadau annisgwyl wedi digwydd. Nid yw Llywodraeth Cymru yn mewnbynnu unrhyw ddata yn y cyflwyniadau. Gwneir unrhyw newidiadau gan y bwrdd iechyd lleol ac ailgyflwynir y data drwy Wasanaeth Gwybodeg GIG Cymru.

Cyhoeddi

Mae'r ystadegau a gyhoeddir gan yr Uned Ystadegau a Dadansoddi Iechyd yn cael eu cynhyrchu drwy grynhoi'r wybodaeth a ddarperir gan y byrddau iechyd lleol. Mae'n broses rhannol awtomataidd ond mae'r prif bwyntiau a'r sylwebaeth yn cael eu cynhyrchu ar wahân. Cyn cyhoeddi, mae'r wybodaeth yn cael ei gwirio yn derbyn y data a gyflenwyd. Mae'r wybodaeth a gyflwynir ar StatsCymru yn cael ei chynhyrchu'n awtomatig.

Cyhoeddir y data'n flynyddol ar ffurf Datganiad Ystadegol Cyntaf ochr yn ochr â thablau rhyngweithiol ar StatsCymru.

Diwygiadau

Mae'r nodiadau ar ddiwedd y datganiad hwn yn rhoi gwybod i ddefnyddwyr a yw'r allbynnau wedi cael eu diwygio ai peidio (nodir gyda 'r'). Byddwn hefyd yn rhoi syniad o faint y diwygiad rhwng y datganiad diweddaraf a'r datganiad blaenorol. Mae data'n cael eu diwygio am nifer o resymau, fel: data'n cael eu dychwelyd yn hwyr, amcangyfrifon anghywir neu ôl-ddata'n cael eu diwygio.

Yn yr achos annhebygol fod data anghywir yn cael eu cyhoeddi, byddai diwygiadau'n cael eu gwneud a byddai defnyddwyr yn cael gwybod yn unol â threfniadau [Diwygiadau, camgymeriadau a gohiriadau](#) Llywodraeth Cymru.

Statws Ystadegau Gwladol

Cyhoeddir yr ystadegau yn y datganiad hwn yn unol â Deddf Ystadegau a Gwasanaeth Cofrestru 2007, sy'n dangos eu bod yn cydymffurfio â'r [Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau](#), ond nid ydynt wedi eu labelu fel Ystadegau Gwladol. Nid ydy'r ystadegau hyn wedi eu hasesu yn ddiweddar gan yr Awdurdod Ystadegau ac eglurir cyfyngiadau'r data yma.

Mae statws Ystadegau Gwladol yn golygu bod ystadegau gwladol yn cyrraedd y safonau uchaf o ran dibynadwyedd, ansawdd a gwerth i'r cyhoedd.

Dylai'r holl ystadegau swyddogol gydymffurfio â phob agwedd ar y Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau. Dyfernir statws Ystadegau Gwladol iddynt yn dilyn asesiad gan gangen reoleiddio Awdurdod Ystadegau'r DU. Mae'r Awdurdod yn ystyried a yw'r ystadegau'n cyrraedd y safonau uchaf o ran cydymffurfio â'r Cod, gan gynnwys y gwerth y maent yn ei ychwanegu at benderfyniadau a dadleuon cyhoeddus.

Cyfrifoldeb Llywodraeth Cymru yw parhau i gydymffurfio â'r safonau a ddisgwylir gan Ystadegau Gwladol. Os down i bryderu ynghylch p'un a yw'r ystadegau hyn yn dal i gyrraedd y safonau priodol, byddwn yn trafod y pryderon â'r Awdurdod yn brydlon. Gellir dileu statws Ystadegau Gwladol ar unrhyw adeg pan nad yw'r safonau uchaf yn cael eu cynnal, a gellir adennill y statws pan fo'r safonau'n cael eu hadfer.

Datgelu a chyfrinachedd

Er bod rhai ffigurau bach yn y data a gasglwyd ac a gyflwynir, nid ystyrir yr wybodaeth yn gyfrinachol ei natur, ac nid oes gwybodaeth adnabod wedi'i chyflwyno.

Rydym yn glynu wrth ein [datganiad ar gyfrinachedd a gweld data](#) ac egwyddor llywodraethu data elfen Dibynadwyedd y [Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau](#).

Ansawdd

Mae'r Uned Ystadegau a Dadansoddi Iechyd yn glynu wrth [strategaeth ansawdd](#) ac elfen Ansawdd y Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau.

Yn benodol, mae'r rhestr isod yn disgrifio chwe dimensiwn y System Ystadegol Ewropeaidd a sut rydym yn glynu wrthynt.

Perthnasedd

I ba raddau y mae'r cynnyrch ystadegol yn bodloni anghenion y defnyddwyr o ran cwmpas a chynnwys

Rydym yn annog defnyddwyr o'r ystadegau i gysylltu â ni er mwyn rhoi gwybod i ni sut maent yn defnyddio'r data. Ni fyddai'n bosibl darparu tablau i fodloni holl anghenion defnyddwyr, ond mae'r tablau a gyhoeddir yn y datganiad a StatsCymru yn ceisio ateb y cwestiynau cyffredin.

Rydym yn ymgynghori â defnyddwyr allweddol cyn gwneud newidiadau a, lle bo'n bosibl, yn cyhoeddi'r newidiadau ar y rhyngryd, mewn pwyllgorau ac ar rwydweithiau eraill er mwyn

ymgyngori'n ehangach â defnyddwyr. Rydym yn ceisio ymateb yn gyflym i newidiadau polisi er mwyn sicrhau bod ein hystadegau'n aros yn berthnasol.

Rydym yn adolygu'n hallbynnau'n rheolaidd ac yn croesawu adborth.

Cywirdeb

Yr agosrwydd rhwng canlyniad a amcangyfrifir a gwir werth (anhysbys)

Gellir rhannu cywirdeb yn gyfeiliornadau samplu a chyfeiliornadau nad ydynt yn gyfeiliornad samplu. Mae cyfeiliornadau nad ydynt yn gyfeiliornadau samplu yn cynnwys pethau fel cyfeiliornad cwmpas, cyfeiliornad dim ymateb, cyfeiliornad mesur, a chyfeiliornad prosesu.

Mae hwn yn gasgliad sefydledig yn seiliedig ar ddata 100%, hy nid sampl.

Ar gyfer y rhan fwyaf o fisoedd, mae pob bwrdd iechyd lleol yn gallu darparu data ac nid oes angen amcangyfrif ffigurau. Os defnyddir amcangyfrif, oherwydd nad oedd bwrdd iechyd lleol wedi gallu darparu data ar gyfer mis penodol, bydd hyn wedi'i nodi'n glir yn y datganiad.

Nid ydym wedi ymchwilio i gyfeiliornadau nad ydynt yn gyfeiliornadau samplu. Fodd bynnag, gallai cyfeiliornadau prosesu ddigwydd lle mai clercod mewn ysbytai yn mewnbynnu data'n anghywir yn eu systemau gweinyddol, neu gallai cyfeiliornadau mesur ddigwydd o ganlyniad i staff mewn ysbytai yn dehongli diffiniadau'n wahanol. Er mwyn lleihau cyfeiliornadau nad ydynt yn gyfeiliornadau samplu, darperir safonau a chanllawiau ar y broses o gasglu data, a hynny i geisio sicrhau bod Byrddau Iechyd Lleol yn cyflwyno gwybodaeth yn unol â manyleb y cytunir ami. Mae'r [Bwrdd Safonau Gwybodaeth](#) wedi adolygu a chymeradwyo'r safonau sy'n berthnasol i'r broses hon o gasglu data. Pan fo cyfeiliornadau nad ydynt yn gyfeiliornadau samplu yn effeithio ar y data, rydym yn darparu gwybodaeth lawn i ddefnyddwyr er mwyn iddynt allu llunio barn ddeallus ar ansawdd yr ystadegau, yn enwedig os oes cyfyngiadau. Mae rhagor o wybodaeth am ddiffiniadau, casglu data a dehongli'r safonau data y cytunir arnynt yn genedlaethol y mae'r GIG yng Nghymru wedi'u mabwysiadu ar gael yng [Ngeiriadur Data GIG Cymru](#).

Mae'r allbynnau'n cynnwys gwybodaeth allweddol am ansawdd o ran cwmpas, amseru a daearyddiaeth.

Mae gweithdrefnau sicrhau ansawdd ar waith er mwyn deall ac esbonio symudiadau yn y data a gwirio bod y system gyfrifiadurol yn cyfrifo'r ystadegau a gyhoeddir yn gywir.

Amseroldeb a phrydlondeb

Mae amseroldeb yn cyfeirio at yr amser rhwng cyhoeddi'r data a'r cyfnod y mae'r data'n cyfeirio ato. Mae prydlondeb yn cyfeirio at yr amser rhwng y dyddiad y cyhoeddwyd y data mewn gwirionedd a'r dyddiad cyhoeddi a oedd wedi'i nodi i gychwyn

Mae'r holl allbynnau'n cydymffurfio â'r Cod Ymarfer drwy gyhoeddi ymlaen llaw ddyddiad y cyhoeddi ar dudalennau gwe [l'w cyhoeddi cyn hir](#). Yn ogystal, petai angen gohirio allbwn, byddai hyn yn dilyn trefniadau [Diwygiadau, camgymeriadau a gohiriadau](#) Llywodraeth Cymru.

Rydym yn cyhoeddi datganiadau cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl y cyfnod amser perthnasol. Mae Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru yn casglu data yn fisol ac mae Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi (KAS) Llywodraeth Cymru yn eu cyhoeddi'n flynyddol. Mae hyn yn hwyluso dilysu sylweddol ar ran Byrddau Iechyd Lleol, Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru a Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi Llywodraeth Cymru. Ar ben hyn, oherwydd ein bod yn cyhoeddi bob blwyddyn, mae'n annhebygol y byddai cyflwyniadau hwyr yn effeithio llawer ar y cyhoeddiad.

Hygyrchedd ac eglurder

Mae hygyrchedd yn cyfeirio at ba mor hawdd ydyw i'r defnyddwyr gael gafael ar y data, a hefyd ym mha fformat(au) y mae'r data ar gael ynddynt ac a oes gwybodaeth ategol ar gael. Mae eglurder yn cyfeirio at ansawdd a digonolrwydd y metaddata, y darluniadau a'r cyngor atodol.

Mae'r ystadegau'n cael eu cyhoeddi mewn dull hygyrch a threfnus ar wefan Llywodraeth Cymru am 9:30am ar y dyddiad cyhoeddi. Nodir ymlaen llaw y bydd yr ystadegau yn cael eu cyhoeddi. Mae porthydd RSS yn tynnu sylw defnyddwyr sydd wedi cofrestru at y cyhoeddiad hwn. Rydym hefyd yn cyhoeddi'r canlyniadau ar [Twitter](#). Ar yr un pryd, mae'r datganiad hefyd yn cael ei gyhoeddi ar Hyb Cyhoeddiadau'r gwasanaeth Ystadegau Gwladol. Mae'r holl ddatganiadau ar gael i'w llwytho i lawr am ddim.

Mae data manylach ar gael ar yr un pryd ar wefan [StatsCymru](#) a gellir eu trin ar-lein neu eu llwytho i lawr i daenlenni i'w defnyddio all-lein.

Anelwn at ddefnyddio iaith glir yn ein hallbynnau ac mae'r holl allbynnau yn cydymffurfio â [pholisi hygyrchedd](#) Llywodraeth Cymru. Hefyd, mae ein holl benawdau'n cael eu cyhoeddi yn Gymraeg a Saesneg.

Mae rhagor o wybodaeth am yr ystadegau ar gael drwy gysylltu â'r staff perthnasol sy'n cael eu nodi ar y datganiad neu drwy ystadegau.iechyd@llyw.cymru.

Rydym yn anelu at ddefnyddio iaith Glir yn ein canlyniadau ac maent yn glynu wrth [Bolisi Hygyrchedd Llywodraeth Cymru](#). Hefyd, mae ein holl benawdau'n cael eu cyhoeddi yn Gymraeg a Saesneg. I gael rhagor o wybodaeth am yr ystadegau, cysylltwch â'r staff perthnasol sydd wedi'u nodi ym mhob datganiad neu drwy anfon e-bost at ystadegau.iechyd@llyw.cymru.

Cymharedd

I ba raddau y mae modd cytuno ar ddata dros amser a pharth.

Pan fo'r data a ddarperir yn newid, caiff hyn ei ddangos yn glir yn yr allbynnau. Lle ceir rhybudd ymlaen llaw o newidiadau yn y dyfodol, bydd y rhain yn cael eu cyhoeddi ymlaen llaw yn unol â threfniadau Llywodraeth Cymru.

Mae diffiniadau a safonau y cytunwyd arnynt o fewn Cymru yn rhoi sicrwydd bod y data yn gyson ar draws y byrddau iechyd lleol.

Roedd y datganiad QS1 wedi newid ym mis Ionawr 2013, fel y nodir yn [DSCN 2013 \(02\)](#) pan newidiodd y drefn o adrodd ar y defnydd o welyau a gwybodaeth am glinigau o fod yn ofyniad

chwarterol i fod yn gyflwyniad misol. O'r adeg honno ymlaen, tynnwyd eitemau data QS1 y gellid eu codi o setiau data eraill GIG Cymru (er enghraifft, setiau data ar lefel cleifion) yn ôl. Prif effaith y newid hwn yw y bydd y data ar gyfer marwolaethau a rhyddhau o'r ysbyty (sy'n cael eu defnyddio mewn cyfrifiadau sy'n ymwneud â'r cyfartaledd o ran hyd arosiadau, cyfnodau trosiant a defnyddio gwelyau) yn deillio o [Gronfa Ddata Cyfnodau Gofal Cleifion Cymru \(PEDW\)](#) yng nghyswllt data ar gyfer 2012-13 ymlaen.

Fodd bynnag, ar gyfer pob BILI, mae angen i ddata'r Gronfa gael eu paru â data QS1 i sicrhau yr adroddir ynghylch gweithgareddau Unedau Asesu ar yr un sail. Er enghraifft, os bydd BILI yn cynnwys gweithgareddau'r Uned Asesu yn nata gwelyau QS1, bydd angen cael data Cronfa Ddata Cyfnodau Gofal Cleifion Cymru er mwyn cynnwys gweithgareddau Unedau Asesu yn y ffigur ar gyfer marwolaethau a rhyddhau o'r ysbyty, fel bod modd cyfrifo'r dangosydd hwnnw ar sail gyson.

Mae paru data'r Gronfa â data QS1 yn galw am waith ansawdd data ac felly dim ond y dangosyddion hynny a godwyd o QS1 yn unig a gyflwynir yn y datganiad hwn, h.y. gwelyau sy'n cael eu defnyddio a'r gwelyau sydd ar gael bob dydd ar gyfartaledd.

Er gwaetha'r ffaith mai dim ond data a godwyd o ddatganiad QS1 ar welyau sy'n cael eu defnyddio a gwelyau sydd ar gael bob dydd ar gyfartaledd sydd wedi'u cyflwyno yn y datganiad hwn, mae prosesau sicrhau ansawdd wedi amlygu nad yw bob BILI wedi adrodd ar weithgareddau Unedau Asesu yn yr un ffordd yng nghyswllt eu data gwelyau. Er mai yng nghyswllt datganiad 2012-13 y nodwyd yr anghysondeb hwn o ran adrodd ar weithgareddau Unedau Asesu, mae'n debygol ei bod yn bosibl ei fod hefyd wedi effeithio ar ddata hanesyddol.

Oherwydd y problemau gydag ansawdd y data, cynghorir defnyddwyr i fod yn ofalus wrth ddwyn cymariaethau rhwng data, yn enwedig ar lefel Byrddau Iechyd Lleol.

Defnyddir methodoleg wahanol wrth gyfrifo faint o welyau sydd ar gael a faint sy'n cael eu defnyddio bob dydd ar gyfartaledd bob blwyddyn er mwyn ystyried y newid o adrodd ar wybodaeth QS1 ar sail chwarterol i sail fisol ym mis Ionawr 2013. O 2013-14 ymlaen, defnyddir y fethodoleg ganlynol:

Nifer y gwelyau sydd ar gael bob dydd ar gyfartaledd yn flynyddol =

$$\frac{M1 + M2 + M3 + M4 + M5 + M6 + M7 + M8 + M9 + M10 + M11 + M12}{12}$$

12

Pan M = Data misol. Defnyddir yr un fethodoleg yng nghyswllt y gwelyau sy'n cael eu defnyddio bob dydd ar gyfartaledd yn flynyddol.

Yn 2012-13, dyma oedd y fethodoleg:

Nifer y gwelyau sydd ar gael bob dydd ar gyfartaledd yn flynyddol =

$$\frac{Q1 + Q2 + Q3 + ((M10 + M11 + M12)/3)}{4}$$

4

Yn y blynyddoedd blaenorol, pan gasglwyd data QS1 ar sail chwarterol, dyma oedd y fethodoleg:

Nifer y gwelyau sydd ar gael bob dydd ar gyfartaledd yn flynyddol = $\frac{Q1 + Q2 + Q3 + Q4}{4}$

Pan Q = Data chwarterol, M = Data misol. Defnyddiwyd yr un fethodoleg yng nghyswllt y gwelyau oedd yn cael eu defnyddio bob dydd ar gyfartaledd yn flynyddol.

Gwelyau Iechyd Meddwl ym Mhowys

O 1 Ebrill 2010 ymlaen, roedd Bwrdd Addysgu Iechyd Lleol Powys wedi trosglwyddo gwasanaethau iechyd meddwl i Fwrdd Iechyd Lleol Aneurin Bevan, Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr a Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg. O 1 Rhagfyr 2015 trosglwyddwyd y cyfrifoldeb dros reoli gwasanaethau iechyd meddwl Powys yn ôl i Bowys o Abertawe Bro Morgannwg a Betsi Cadwaladr. Nid yw hyn yn effeithio ar sut y cyflwynir y data yn y datganiad hwn nac ar StatsCymru, gan fod y data ar gyfer yr ysbytai perthnasol ym Mhowys yr oedd hyn yn effeithio arnynt bob amser wedi cael eu dangos yn erbyn BILI Powys (yn unigol ac yn y cyfanswm ar gyfer y BILI), yn hytrach na'r BILI y trosglwyddwyd y gwaith o'u rheoli iddo.

Cydlyniant

I ba raddau y mae data sy'n deillio o wahanol ffynonellau neu ddulliau, ond sy'n cyfeirio at yr un ffenomen, yn debyg.

Mae data am welyau ar gael ar gyfer gwledydd eraill yn y DU (gweler isod) ond dylech nodi mai ychydig o le sydd i wneud cymariaethau rhyngddynt oherwydd y gweinyddiaethau datganoledig a pholisïau gwahanol.

Data y mae gwledydd eraill y DU yn eu casglu:

Lloegr

Mae NHS England yn cyhoeddi data chwarterol ar [Welyau sydd ar gael a Gwelyau sy'n cael eu defnyddio](#). Mae data ar gael ar gyfer gwelyau dros nos a gwelyau yn ystod y dydd yn unig.

Yr Alban

Mae Adran Gwasanaethau Gwybodaeth (ISD) NHS Scotland yn cyhoeddi ystadegau ar [Welyau sydd ar gael a Gwelyau sy'n cael eu defnyddio](#) ar eu gwefan.

Gogledd Iwerddon

Yng Ngogledd Iwerddon, mae'r Adran Iechyd yn cyhoeddi [Gweithgareddau cleifion preswyl ac achosion dydd](#) sy'n cynnwys y gwelyau sydd ar gael, gwelyau sy'n cael eu defnyddio, cyfraddau defnydd, hyd arosiadau ar gyfartaledd, gweithgareddau theatrau llawdriniaeth a genedigaethau yn yr ysbyty. Cyflwynir yr holl ddata gan yr ymddiriedolaeth iechyd a gofal cymdeithasol, ysbytai ac arbenigeddau.

Dolenni defnyddiol

[Geiriadur Data GIG Cymru](#)

[Geiriadur Data GIG Cymru: tudalennau ar QS1](#)

[Cronfa Ddata Cyfnodau Gofal Cleifion yng Nghymru \(PEDW\)](#)

[Datganiad Ystadegol Blynyddol Cyntaf Gwelyau'r GIG](#)

[StatsCymru](#)

[Gwella Ansawdd Gwybodaeth](#)

[Safonau Gwybodaeth y GIG](#)

[Polisiau Ansawdd Data Byrddau Iechyd Lleol](#)

[Awdurdod Ystadegau'r Deyrnas Unedig: Sicrwydd Ansawdd Data Gweinyddol](#)

Gwerthuso

Rydym bob amser yn falch o gael adborth am unrhyw rai o'n hystadegau. Cysylltwch â ni ar ystadegau.iechyd@llyw.cymru.

Cynhyrchwyd gan Wasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi, Llywodraeth Cymru

Adolygwyd diwethaf: Awst 2019



Mae'r holl gynnwys ar gael dan y [Drwydded Llywodraeth Agored, fersiwn 3.0](#), oni nodir yn wahanol.